# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 13 Gorffennaf i 20 Gorffennaf 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

3 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

5 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai

6 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

8 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

9 Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd

### Prosiect y Bocs Du

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu cynnal unrhyw drafodaethau â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynghylch y posibilrwydd y bydd contract prosiect y bocs du yn cael ei gynnig i ffatri Raytheon yng ngogledd Cymru? (WAQ6514)

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Mae'n bwysig i Raytheon sicrhau'r contract adnabod cyfaill neu elyn (SIFF) olynol. Yr wyf am helpu mewn unrhyw ffordd a allaf. Mae swyddogion mewn cysylltiad â Raytheon gyda golwg ar sefydlu sut y gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru helpu.

### Denu Swyddi i Abertawe

**Nick Bourne:** A all y Prif Ysgrifennydd sôn am unrhyw gynlluniau sydd ganddo i ddenu swyddi i Abertawe? (WAQ6526)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ymysg y llu o weithgareddau sydd ar y gweill i ddenu swyddi i ardal Abertawe, mae Awdurdod Datblygu Cymru, mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe, yn hyrwyddo Cwm Tawe fel safle datblygu cymysg. Mae'r gwaith ar adeiladau'r ganolfan galwadau bron â'i gwblhau ac mae gweithiau seilwaith ar y gweill i ddarparu gwasanaethau i leiniau ar gyfer defnydd gweithgynhyrchu a dosbarthu technoleg-uwch. Mae cyswllt uniongyrchol â'r M4 yn cael ei ddarparu hefyd ar y safle cyflogaeth strategol yn Felindre a chyn bo hir bydd y safle yn destun ymgyrch mewnfuddsoddi wedi'i thargedu yn Unol Daleithiau America. Mae'r gwaith wedi dechrau ar ddatblygiad swyddfeydd o safon yn Lakeside, Abertawe i ddenu e-fasnach a busnesau cysylltu â chwsmeriaid. Caiff y Ganolfan Technium yn Noc Tywysog Cymru ei chwblhau fis Hydref a bydd yn darparu adeiladau, yn ogystal â chefnogaeth wrth gefn, i fusnesau newydd ac ifanc ym maes technoleg.

Mae'r strategaeth gyffredinol ar gyfer denu swyddi i Abertawe yn canolbwyntio ar fusnesau gweithgynhyrchu seiliedig-ar-wybodaeth sydd â gwerth ychwanegol gan gynnwys busnesau sydd yn dechrau, ehangu busnesau sydd yn bodoli'n barod yn ogystal â mewnfuddsoddi.

### Denu Mwy o Ganolfannau Galw i Gymru

**Nick Bourne:** A all y Prif Ysgrifennydd sôn am unrhyw gynlluniau sydd ganddo i ddenu mwy o ganolfannau galw i Gymru ar ôl i ganolfan First Line Mobile gau yn ddiweddar? (WAQ6527)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae denu canolfannau cysylltu â chwsmeriaid o safon i Gymru yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'r Cynulliad, y WDA, a mentrau eraill mwy penodol. Mae nifer o gamau ar y gweill i sicrhau bod gennym hinsawdd a chyfleusterau cystadleuol yng Nghymru i ddenu canolfannau cysylltu o safon. Y flwyddyn ddiwethaf enillwyd 11 o brosiectau o fewn y sector hwn sy'n cynrychioli dros 4,000 o swyddi a £56.7 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf. Byddir yn parhau â'r ymdrech hon dros y flwyddyn i ddod.

### Goblygiadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar Ddatblygu Economaidd

**Nick Bourne:** A all y Prif Ysgrifennydd sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddo ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i gydweithwyr yn San Steffan, am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a'i oblygiadau i ddatblygu economaidd yng Nghymru? (WAQ6530)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau sy'n parhau gyda'r Canghellor a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys am yr adolygiad gwariant.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

### Sicrhau bod Ffermwyr yn Derbyn Pris Tecach am eu Cynnyrch

**Nick Bourne:** A all yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig roi adroddiad am y cynlluniau sydd ganddi ar gyfer sicrhau bod ffermwyr yn derbyn pris tecach gan archfarchnadoedd am eu cynnyrch? (WAQ6483)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Yr wyf wedi cyfarfod â nifer o'r cwmnïau adwerthu mawr i drafod materion sydd yn codi o'r argyfwng ffermio, gan gynnwys cwestiynau prisio a maint yr elw yn y sectorau llaeth, prosesu ac adwerthu ac i ystyried beth y gellir ei wneud i liniaru'r sefyllfa.

Mae'r diwydiant yn ymwybodol o'r angen i weld yr arfer gorau mewn perthnasau busnes ar hyd a lled y gadwyn gyflenwi ac mae hyn yn neilltuol o berthnasol i ffermwyr a chynhyrchwyr bychain. Yr wyf yn falch i'r adwerthwyr mawr, yn fy nghyfarfodydd gyda hwy, roi sicrwydd imi y byddant yn gweithio i ddilyn Cod Ymarfer y Sefydliad Dosbarthu Bwydydd.

### Annog Prynwyr i Brynu Mwy o Gynnyrch Lleol

**Nick Bourne:** A all Christine Gwyther roi adroddiad ar unrhyw gynlluniau sydd ganddi i leihau monopoli cyfredol yr archfarchnadoedd ac i annog prynwyr i brynu mwy o gynnyrch lleol? (WAQ6484)

**Christine Gwyther:** Mae'r Comisiwn Cystadleuaeth yn parhau â'i ymchwiliad monopoli i'r archfarchnadoedd, gan ymchwilio i faterion fel cystadleuaeth prisiau, cystadleuaeth yn nhermau gwasanaethau a safleoedd y gallai'r defnyddiwr fod yn talu amdani, a sut mae'r archfarchnadoedd yn trin eu cyflenwyr. Mae'r Comisiwn i fod i gyflwyno'i adroddiad erbyn diwedd Gorffennaf 2000.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth a Chyfarwyddiaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru, yn gweithio i hyrwyddo bwyd o Gymru drwy'r strategaeth bwyd-amaeth. Mae'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth â rhan amlwg a llwyddiannus mewn mynd ar drywydd cyfleoedd gyda'r holl archfarchnadoedd yng Nghymru i hyrwyddo ac annog cyflenwi cynnyrch sydd yn cael ei gynhyrchu'n lleol.

### Datblygiadau a Thrafodaethau ynglŷn â Chynllun Tir Mynydd

**Nick Bourne:** A all Christine Gwyther roi adroddiad ar unrhyw ddatblygiadau pellach mewn perthynas â chymeradwyo a gweithredu Tir Mynydd? (WAQ6485)

**Nick Bourne:** A all Christine Gwyther roi adroddiad ar unrhyw drafodaethau diweddar y mae hi wedi'u cael gyda'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â'r cynllun cefnogi ffermio mynydd? (WAQ6486)

**Christine Gwyther:** Mae negodiadau'n parhau gyda'r Comisiwn ar y cynllun datblygu gwledig i Gymru, gan gynnwys y cynllun Tir Mynydd i ardaloedd llai ffafriol.

### Niwed oddi wrth Gnydau wedi'u Haddasu'n Enetig

**Nick Bourne:** A all Christine Gwyther adrodd ar unrhyw fesurau y mae'n cynnig eu cyflwyno i sicrhau bod cnydau ffermwyr confensiynol a ffermwyr organig yn cael eu hamddiffyn rhag niwed oddi wrth gnydau wedi'u haddasu'n enetig? (WAQ6510)

**Christine Gwyther:** Os dof yn ymwybodol o niwed i'r amgylchedd o ganlyniad uniongyrchol i blannu cnydau wedi'u haddasu'n enetig yna byddaf yn gweithredu i atal y caniatâd neu'n gofyn i Lywodraeth y DU gan ddibynnu ar y sail gyfreithiol y tyfir y cnwd arni. Cyfeiriaf chi at bapur cyf. ARD 18-99, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 15 Rhagfyr 1999, ar hyn.

Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn annog trafodaethau rhwng ffermwyr organig a SCIMAC, y fenter cadwyn gyflenwi ar gnydau amaethyddol wedi'u haddasu, gyda'r nod o ganfod ffyrdd i'r ddwy system allu byw gyda'i gilydd. Mae'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yn adolygu'r pellterau gwahanu yn sgîl llygru hadau rêp had olew Advanta a dyfwyd yng Nghanada. Disgwylir canlyniadau'r adolygiad hwn yn ddiweddarach eleni, a byddaf yn ystyried y canfyddiadau'n llawn wrth benderfynu a ddylid cynnig unrhyw fesurau pellach penodol sy'n ofynnol i warchod ffermio confensiynol ac organig yng Nghymru.

**Monitro Datblygu a Phlannu Cnydau wedi'u Haddasu'n Enetig**

**Nick Bourne:** A all Christine Gwyther adrodd ar unrhyw gynlluniau sydd ganddi i sefydlu proses reoleiddio i fonitro datblygu a phlannu cnydau wedi'u haddasu'n enetig yng Nghymru? (WAQ6511)

**Christine Gwyther:** Byddaf yn ystyried monitro ac asesu arfarniadau graddfa-fferm pan fydd y rhain ar gael gyda golwg ar ystyried pa wersi allai fod yn briodol.

**Cynnig i Wahardd Hela gyda Chŵn (Sylwadau)**

**Nick Bourne:** A all Christine Gwyther roi adroddiad ar unrhyw sylwadau y mae wedi eu derbyn yn erbyn y cynnig i wahardd hela gyda chŵn yng Nghymru (WAQ6512)

**Christine Gwyther:** Yr wyf wedi derbyn llawer o sylwadau o blaid ac yn erbyn gwaharddiad ar hela gyda chŵn oddi wrth unigolion a grwpiau wedi'u trefnu.

**Cyfarfodydd gyda Phobl sydd yn Ymwneud â Hela gyda Chŵn**

**Nick Bourne:** A all Christine Gwyther ddweud a yw wedi cael cyfarfodydd gydag unrhyw Gymry sydd yn ymwneud â hela gyda chŵn (WAQ6513)

**Christine Gwyther:** Cyfeiriaf yr Aelod at fy ateb ar 10 Gorffennaf i gwestiwn cynharach ganddo ar y pwnc hwn.

**Goblygiadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant i Amaethyddiaeth**

**Nick Bourne:** A all Christine Gwyther sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i chydweithwyr yn San Steffan, am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a'i oblygiadau i amaethyddiaeth Cymru a datblygu gwledig? (WAQ6518)

**Christine Gwyther:** Yr wyf mewn cyswllt rheolaidd â'm cydweithwyr yn San Steffan ynglŷn â materion sydd yn effeithio ar amaethyddiaeth a datblygu gwledig yng Nghymru.

**Lansio Cwmni Cig Cydweithredol Cymru Gyfan**

**Peter Rogers:** A wnaiff Christine Gwyther ddatgelu faint o arian a wariwyd ar lansio Cwmni Cig Cydweithredol Cymru Gyfan o gyllideb bwyd-amaeth y WDA (WAQ6546)

**Christine Gwyther:** Yr wyf wedi gofyn i Gadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth.

**Lleihad yn y Cwota Buchod Sugno**

**Peter Rogers:** Faint fydd y lleihad yn y cwota buchod sugno yn ei dynnu allan o incwm ffermwyr, gan gynnwys dau daliad y pen, premiwm lladd, cwota buchod sugno a thaliadau anarddwys? (WAQ6547)

**Christine Gwyther:** Fel rhan o ddiwygiadau Agenda 2000 i'r polisi amaethyddol cyffredin, yr oedd gofyn i'r DU ostwng nenfwd y cynllun premiwm buchod sugno o 95,600 uned. Ymgynghorwyd â'r diwydiant ffermio ynglŷn â'r ffordd o weithredu'r gostyngiad. Y consensws barn oedd y dylid cadw unrhyw ostyngiad i lefel cwota ffermwyr cyn ised fyth â phosibl. O ganlyniad, cyflawnir y rhan fwyaf o'r gostyngiad, a ddaw i rym ar gyfer blwyddyn 2000 y cynllun, drwy ddefnyddio'r gronfa genedlaethol wrth gefn. Cyflawnir gweddill y gostyngiad drwy ostwng cwota unigol y cynhyrchwyr o 2.75 y cant. Ni fydd y cynhyrchwyr hynny sydd yn dal 3.6 o unedau cwota neu lai yn gorfod wynebu unrhyw ostyngiad. I'r ffermwyr hynny sydd yn fuddsoddwyr a/neu'n ymgymryd â'r cynllun anarddwys, mae yna drefn apêl ar gyfer adfer cwota. Rhaid i'r sawl sydd yn apelio gyflwyno apêl i Swyddfa Is-adran Llandrindod erbyn 4 Awst 2000.

Hyd nes y bydd canlyniad y drefn apêl wedi'i benderfynu ni fydd yr union effaith ar incwm ffermydd yn hysbys, ond amcangyfrifir y bydd yn llai na £850,000 am y premiwm buchod sugno a'r cynlluniau anarddwys. Nid effeithir ar gynllun y premiwm lladd gan y gostyngiad yn y cwota.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai

### Y Fformiwla Gyllido ar gyfer Llywodraeth Leol

**Nick Bourne:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai roi datganiad ynghylch unrhyw gynlluniau sydd ganddo i adolygu'r fformwla gyllido ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru? (WAQ6535)

**Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai (Peter Law):** Cynhaliwyd arolwg cynhwysfawr o'r fformiwla gyllido ar gyfer dosbarthu refeniw (y fformiwla asesu gwariant safonol) gan is-grwp dosbarthu y fforwm ymgynghorol ar gyllid. Cyflwynodd y Cynghorydd Syr Harry Jones, sef arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a minnau adroddiad yr is-grwp dosbarthu i Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr llywodraeth leol ar 3 Gorffennaf. Yn sgîl y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Gorffennaf, yr ydym yn awr yn ymgynghori'n eang ar gynigion yr is-grwp dosbarthu. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 8 Medi. Byddaf yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn adrodd i'r fforwm ymgynghorol ar gyllid ar 9 Hydref. Mae dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr arolwg wedi ei threfnu'n awr ar gyfer 12 Hydref, fel y gall y Cynulliad roi ei safbwyntiau pellach, ar ôl darllen yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

### Ardreth Fusnes Atodol i Gymru

**Nick Bourne:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai roi datganiad ynghylch unrhyw gynlluniau sydd ganddo i gyflwyno ardreth fusnes atodol yng Nghymru? (WAQ6536)

**Peter Law:** Mae'n debygol y caiff cynigion i roi pwerau cyfyngedig i gynghorau yng Nghymru a Lloegr i bennu ardreth fusnes lleol ychwanegol eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Bydd ymgynghori helaeth â busnes a llywodraeth leol yn y ddwy wlad ac fe gaiff y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gyfle i ystyried y cynigion ymhellach yn yr hydref.

### Adbrisio'r Ardreth Fusnes

**Nick Bourne:** Pa wrthwynebiadau y mae'r Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai wedi'u cael ynghylch adbrisio'r ardreth fusnes, ac a wnaiff restru'r gwrthwynebiadau hynny? (WAQ6537)

**Peter Law:** Yr wyf wedi cael sylwadau gan, neu ar ran, y sefydliadau busnes canlynol ynglŷn ag effaith yr adbrisio yn 2000.

Alan's Furnishers
Gwesty'r Bear, Crucywel
Body Shop, Abertawe
Gwesty'r Metropole, Llandrindod
Morgan's Brasserie, Tyddewi
Gwaith Dur Orb

| | |
|---|---|
| Boots the Chemist Cyf | Parc Caerelwan |
| Cymdeithas Gwyliau Prydeinig a Pharciau Cartref | Penhelig Arms, Aberdyfi |
| Consoritum Manwerthu Prydain | Pound World |
| Tafarn y Brook, Hwlffordd | Tafarn y Red Hart, Sir Fynwy |
| Gwesty'r Buck Horse, Bangor | Y Llew Coch, Llanfair-ym-Muallt |
| Fforwm Carafanio a Gwersylla | Rizla UK Cyf |
| CBI Cymru | Royal Oak, Sir y Fflint |
| Corus | Colutia UK Cyf |
| David Lloyd Leisure Cyf | Gwesty, Clwb Golf a Chlwb Gwlad Sain Pŷr |
| Gwesty'r Egerton Grey Country House, Y Rhws | Parc Carafannau a Hamdden Traeth Talacre |
| First Hydro | Tafarn yr Horseshoe, Pont-y-pŵl |
| First Motorway Services | Bwrdd Croeso Cymru |
| Floorex Carpets Cyf | Gwesty'r Warpool Court, Sir Benfro |
| Golden Sands Holiday Camp Cyf | Undeb Golff Cymru |
| Happy Home Furnishers | Whitbread plc |
| Llink Group Cyf | Wisco |
| Gwesty'r Marriott, Caerdydd | Tafarn yr Ye Olde Bulls Head, Biwmares |
| Gwesty'r Marriott, Abertawe | Gwesty Ynyshir Hall, Machynlleth |
| Masons Arms, Sir y Fflint | Yr Hen Lew Du, Aberystwyth |

Cyflwynwyd cynllun rhyddhad trosiannol i amddiffyn busnesau bychain o effeithiau andwyol yr adbrisio. Mae mwy nag un busnes mewn tri—bron 90 y cant o'r rheiny gyda 10 y cant neu fwy o gynnydd yn eu biliau—yn cael budd o'r cynllun.

### Goblygiadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar Lywodraeth Leol a Thai

**Nick Bourne:** A all yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddo ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i gydweithwyr yn San Steffan, am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a'i oblygiadau i lywodraeth leol a thai yng Nghymru? (WAQ6538)

**Peter Law:** Yr wyf mewn cyswllt rheolaidd â'm cydweithwyr yn San Steffan ynglŷn â materion sydd yn effeithio ar lywodraeth leol a thai yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Cefnogi Plant gyda Nam er eu Clyw

**Jenny Randerson:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant sicrhau bod y gwasanaeth addysg yn gallu ymyrryd yn gynnar er mwyn cefnogi plant ifanc iawn y sylweddolir bod nam ar eu clyw—a hynny cyn iddynt gyrraedd eu hail ben-blwydd? (WAQ6476)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Mae Adran 331 Deddf Addysg 1996 eisoes yn rhoi'r grym i awdurdod addysg lleol i asesu anghenion addysgol arbennig plentyn o dan ddwy oed os bydd rhiant yn gofyn am hynny neu fod yr AALl, gyda chydsyniaeth y rhieni, o'r farn bod asesiad yn angenrheidiol. Gall AALl wedyn lunio a chynnal datganiad anghenion addysgol arbennig yng ngoleuni asesiad o'r fath.

Mae'r Cod Ymarfer ar Ganfod ac Asesu Anghenion Addysgol Arbennig yn cyflwyno canllawiau ar lunio asesiadau a datganiadau ynghyd â rhaglenni cefnogaeth y mae'n rhaid i'r AALl eu hystyried. I blant ifanc iawn dylai AALlau ystyried rhaglenni seiliedig-yn-y-cartref megis Portage neu wasanaethau teithiol i blant sydd â nam ar y clyw neu'r golwg.

Po gynharaf y canfyddir anabledd y mwyaf effeithiol y mae'r cynllunio a'r ymyrryd i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn yn debygol o fod. O dan y rhaglen Plant yn Gyntaf rhaid i awdurdodau

iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol gyfuno gwybodaeth am blant sydd ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig, a'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Yn ychwanegol, bydd y cynllun Cychwyn Cadarn, a'r prosiectau cynllunio rhanbarthol ym maes anghenion addysgol arbennig a gymeradwyais y llynedd yn cryfhau'r berthynas waith rhwng AALlau, awdurdodau iechyd, ymddiriedolaethau NHS a chyrff eraill sydd â buddiant yn nyfodol plant sydd ag anableddau na cheir cynifer â hynny ohonynt megis nam ar y clyw. Byddant yn hwyluso canfod ac ymyrryd cynharach fyth, a rhannu mwy effeithiol ar wybodaeth ar draws ffiniau cyfundrefnol i ymgyrraedd at y nod hwn.

### Trafodaethau am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

**Nick Bourne:** A all Rosemary Butler sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i chydweithwyr yn San Steffan, am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a'i oblygiadau i addysg a phlant yng Nghymru? (WAQ6534)

**Rosemary Butler:** Yr wyf mewn cyswllt rheolaidd â'm cydweithwyr yn San Steffan ynglŷn â materion sydd yn effeithio ar addysg a phlant yng Nghymru.

### Cronfeydd Mynediad

**Elin Jones:** Faint mae pob sefydliad addysg uwch wedi ei dderbyn a'i ddosbarthu ar ffurf Cronfeydd Mynediad dros y 5 mlynedd diwethaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer? (WAQ6575)

**Rosemary Butler:** Mae'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani ar gael yn y tabl isod. Lle bo swm y cronfeydd mynediad a rannwyd yn fwy na'r hyn a dderbyniwyd gan y sefydliad, mae llog o'r cyfrif wedi'i ychwanegu neu mae'r sefydliad wedi ategu'r arian a ddyrannwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o'i adnoddau ei hun.

| | **1998-99** | | **1997-98** | | **1996-97** | | **1995-96** | | **1994-95** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Sefydliad** | Wedi'i Dderbyn | Wedi'i Roi | Wedi'i Dderbyn | Wedi'i Roi | Wedi'i Dderbyn | Wedi'i Roi | Wedi'i Dderbyn | Wedi'i Roi | Wedi'i Dderbyn | Wedi'i Roi |
| Prifysgol Morgannwg | 477,381 | 481,046 | 161,571 | 181,831 | 161,571 | 161,751 | 149,320 | 149,320 | 140,364 | 140,364 |
| Prifysgol Cymru, Aberystwyth | 209,086 | 214,670 | 152,778 | 154,500 | 142,770 | 152,778 | 142,770 | 142,770 | 139,839 | 139,839 |
| Prifysgol Cymru, Bangor | 229,312 | 234,345 | 154,518 | 159,985 | 126,795 | 129,263 | 126,795 | 126,795 | 126,795 | 124,826 |
| Prifysgol Caerdydd | 433,777 | 439,370 | 287,580 | 297,705 | 287,580 | 287,580 | 281,864 | 281,864 | 280,099 | 280,099 |
| Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan | 54,742 | 56,242 | 29,921 | 30,670 | 28,328 | 29,921 | 25,405 | 25,405 | 25,041 | 25,041 |
| Prifysgol Cymru Abertawe | 292,683 | 308,157 | 193,815 | 199,856 | 193,815 | 193,815 | 187,473 | 187,473 | 181,279 | 181,279 |
| Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru | 76,407 | 85,820 | 33,763 | 45,700 | 32,805 | 33,763 | 32,805 | 32,805 | 32,805 | 32,805 |
| Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd | 211,870 | 119,413 | 115,362 | 122,101 | 112,820 | 115,362 | 109,004 | 109,004 | 102,440 | 102,440 |
| Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd | 218,143 | 222,311 | 56,985 | 58,155 | 56,262 | 56,735 | 56,262 | 55,958 | 53,588 | 53,580 |
| Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru | 135,372 | 137,539 | 42,343 | 43,604 | 41,750 | 42,343 | 41,750 | 41,750 | 41,750 | 40,816 |
| Athrofa Addysg Uwch Abertawe | 119,215 | 117,996 | 54,602 | 57,241 | 54,602 | 54,602 | 54,602 | 51,544 | 53,179 | 53,179 |
| Coleg y Drindod, Caerfyrddin | 50,826 | 51,325 | 32,761 | 34,280 | 31,540 | 32,761 | 25,226 | 25,226 | 24,673 | 24,673 |
| Coleg Cerdd a Drama Cymru | 16,187 | 16,180 | 12,631 | 12,950 | 12,631 | 12,631 | 12,631 | 12,631 | 12,631 | 12,631 |
| Coleg Normal | n/a | n/a | n/a | n/a | 25,255 | 25,255 | 25,255 | 25,255 | 25,255 | 24,390 |
| **CYFANSWM** | **2,525,001** | **2,484,415** | **1,328,630** | **1,398,578** | **1,308,524** | **1,328,560** | **1,271,162** | **1,267,800** | **1,239,738** | **1,235,962** |

**Cronfeydd Mynediad (Ceisiadau Llwyddiannus)**

**Elin Jones:** Pa ganran o'r ceisiadau am Gronfeydd Mynediad i bob un o'r Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sydd wedi bod yn llwyddiannus? (WAQ6578)

**Rosemary Butler:** Mae'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani ar gael yn y tabl isod.

| **Sefydliad** | **1994-95** | **1995-96** | **1996-97** | **1997-98** | **1998-99** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **%** | **%** | **%** | **%** | **%** |
| Prifysgol Morgannwg | 63.33 | 77.05 | 59.93 | 62.69 | 77.39 |
| Prifysgol Cymru, Aberystwyth | 58.55 | 57.53 | 50.47 | 60.29 | 94.05 |
| Prifysgol Cymru, Bangor | 80.82 | 88.68 | 93.94 | 94.21 | 96.56 |
| Prifysgol Caerdydd | 74.09 | 100.00 | 83.23 | 88.32 | 92.51 |
| Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan | 76.04 | 60.16 | 72.34 | 88.54 | 88.83 |
| Prifysgol Cymru Abertawe | 90.35 | 96.45 | 93.08 | 82.66 | 95.37 |
| Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru | 77.82 | 55.90 | 75.68 | 51.88 | 68.92 |
| Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd | 40.94 | 42.63 | 54.33 | 58.93 | 51.16 |
| Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd | 91.51 | 87.07 | 89.88 | 90.05 | 95.32 |
| Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru | 93.98 | 98.17 | 99.28 | 100.00 | 96.44 |
| Athrofa Addysg Uwch Abertawe | 53.54 | 49.54 | 54.37 | 58.20 | 63.24 |
| Coleg y Drindod, Caerfyrddin | 100.00 | 96.27 | 94.88 | 95.30 | 96.97 |
| Coleg Cerdd a Drama Cymru | 48.21 | 45.45 | 46.62 | 43.97 | 58.54 |
| Coleg Normal | 100.00 | 86.67 | 86.67 | amh | amh |

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd yng Ngogledd Cymru**

**Nick Bourne:** A all yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad ar y lefelau cyllid a roddir i'r Gwasanaeth Iechyd yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd? (WAQ6491)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yn 2000-01, derbyniodd awdurdodau iechyd Cymru ddyraniad refeniw o £2.2 biliwn i gyd. Yr oedd hyn yn cynnwys cynnydd mewn arian drwyddo draw o £196 miliwn (9.4 y cant mewn termau arian neu 7.15 y cant mewn termau real) dros 1999-2000. Derbyniodd Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru £513.2 miliwn, cynnydd o £43.4 miliwn dros 1999-2000.

Derbyniodd Gogledd Cymru £9.2 miliwn pellach fel ei gyfran y pen wedi ei phwysoli o'r dyraniad o £40 miliwn a gyhoeddais ar 17 Mai ar gyfer ystod o gynlluniau, gan gynnwys gweithio ar y cyd â'r gwasanaethau cymdeithasol ac eraill, pwysau mewn argyfwng a thros y gaeaf, ac er mwyn i'r NHS ostwng amserau a rhestrau aros. Bydd hefyd yn derbyn £5.7 miliwn fel ei gyfran o ddyraniad ychwanegol o £25 miliwn, i roi sylw i flaenoriaethau y cytunais arnynt gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol a'i raglen gwella iechyd.

**Amddiffyn a Chefnogi Ysbytai Cymunedol**

**Nick Bourne:** A wnaiff Jane Hutt adrodd ar unrhyw gynlluniau sydd ganddi i amddiffyn a chefnogi ysbytai cymunedol yng Nghymru? (WAQ6505)

**Jane Hutt:** Yn ddiweddar anerchais gynhadledd flynyddol Cymdeithas yr Ysbytai Cymuned ar ddyfodol ysbytai cymuned yng Nghymru. Cefnogais y dull gweithredu a nodwyd yn y ddogfen 'Ysbytai Cymuned—Y Dyfodol' a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig yn 1996. Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod y cyfraniad pwysig a wneir drwyddo draw gan ysbytai cymuned fel rhan o wasanaeth iechyd

cydlynus yng Nghymru. Mae'n pwysleisio'r angen am rôl glir, y cytunwyd arni yn lleol, i bob ysbyty. Megis gyda chyfleusterau eraill yr NHS, mae'r rôl glir hon, gyda safonau uchel a gwasanaethau o safon yn sylfaen iddi, yn hanfodol i lwyddiant pob uned yn y dyfodol.

### Cyllido Sefydliadau Eirioli ar gyfer yr Anabl

**Jenny Randerson:** A yw Jane Hutt wedi ystyried yr angen i'r Cynulliad gyllido'n uniongyrchol sefydliadau eirioli ar gyfer yr anabl, a ariennir gan yr awdurdodau lleol ar hyn o bryd? (WAQ6515)

**Jane Hutt:** Nid wyf wedi rhoi unrhyw ystyriaeth benodol i gyllido sefydliadau eiriol ar gyfer yr anabl yn uniongyrchol drwy'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae pwnc cyffredinol cyllido'n uniongyrchol drwy'r Cynulliad yn un o'r meysydd sydd o dan ystyriaeth fel rhan o'r arolwg strategol o gyllido'r sector gwirfoddol a sefydlwyd gan Gyngor Partneriaeth cysgodol y Sector Gwirfoddol.

### Goblygiadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nick Bourne:** A all Jane Hutt sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi ag aelodau tîm y Trysorlys, neu unrhyw un o'i chydweithwyr yn San Steffan, am yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i oblygiadau i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru? (WAQ6531)

**Jane Hutt:** Yr wyf mewn cyswllt rheolaidd â'm cydweithwyr yn San Steffan ynglŷn â materion sydd yn effeithio ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

### Adroddiad y Sefydliad Seiciatreg Brenhinol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl

**David Melding:** Pryd y bydd adroddiad y Sefydliad Seiciatreg Brenhinol ar wasanaethau iechyd meddwl yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, Caerdydd yn cael ei gyhoeddi? (WAQ6542)

**Jane Hutt:** Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro a gomisiynodd adroddiad y Sefydliad Seiciatreg Brenhinol. Deallaf y caiff canfyddiadau'r adroddiad eu cyhoeddi yn y dyfodol agos.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

### Cyfyngiadau ar Uchder Tyrbinau Gwynt

**Nick Bourne:** A wnaiff Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ddatganiad ar gyfarwyddiadau a roddwyd i Gyngor Sir Ceredigion ynghylch cyfyngiadau ar uchder tyrbinau gwynt a'r uchafswm a ganiateir mewn unrhyw un datblygiad? (WAQ6316)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Sue Essex):** Nid wyf yn ymwybodol o'r cyfarwyddiadau y cyfeiriwch atynt. Cyflwynir polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru yng Nghanllawiau Cynllunio Cymru ac, o ran datblygiadau ynni gwynt, yn Nodyn Cyngor Technegol 8 'Ynni Adnewyddadwy' sydd yn mynd law yn llaw ag ef. Nid yw'n pennu unrhyw gyfyngiadau caeth o'r math y cyfeiriwch ato.

### Atgyweirio Eglwys Priordy Ewenni

**Alun Cairns:** A wnaiff Sue Essex ddatganiad ynghylch y cynlluniau i gwblhau atgyweirio Eglwys Priordy Ewenni? (WAQ6516)

**Sue Essex:** Mae Eglwys Ewenni wedi'i rhannu'n ddwy ran. Mae corff yr eglwys yn parhau i gael ei ddefnyddio gan yr eglwys tra bo'r groesfa a'r gangell yng ngofal y Cynulliad Cenedlaethol ac yn cael eu rheoli gan Cadw fel heneb. Derbyniodd Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwys Priordy Ewenni grant o £279,500 gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i ymgymryd â rhaglen helaeth o waith adfer ar gorff yr eglwys.

Cefnogai Cadw'r cais hwn yn llwyr a bu'n monitro'r gwaith ar ran Cronfa Treftadaeth y Loteri. I gyd-fynd â hyn, mae Cadw wedi gwneud gwaith trwsio sylweddol ar do tŵr yr eglwys ac mae'n bwriadu ymgymryd â rhaglen o waith cadwraeth mewn gwahanol rannau o'r eglwys sydd o dan ei reolaeth, gan ddechrau gyda chroesfa'r de.

**Datblygiadau o ran Gweithredu'r Hawl i Grwydro**

**Nick Bourne:** A all Sue Essex sôn am unrhyw ddatblygiadau pellach o ran gweithredu'r hawl i grwydro yng Nghymru? (WAQ6517) ***Trosglwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Amaeth a Datblygu Gwledig.***

**Sue Essex:** Mae darpariaethau ynglŷn â mynediad i gefn gwlad agored wedi eu cynnwys yn Rhan 1 y Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sydd wedi ei drafod gan Bwyllgor Sefydlog yn Nhŷ'r Cyffredin erbyn hyn. Bellach mae'r Mesur i gael ei drafod yn Nhŷ'r Arglwyddi a'n dymuniad yw y bydd yn derbyn y Gydsyniaeth Frenhinol ym mis Tachwedd.

Mae'r Cynulliad wedi darparu cyllid ychwanegol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru iddo ymgymryd â'r cyfrifoldebau sydd yn deillio o'r Mesur gan gynnwys y gwaith paratoadol sydd ynghlwm wrth fapio 'tir agored' a thir comin wedi'i gofrestru yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu cefnogaeth er mwyn sefydlu a chynnal nifer o fforymau mynediad lleol.

Trafodwyd darpariaethau mynediad y Mesur ym Mhwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar 22 Mehefin ac mae egwyddorion canolog y Mesur i gael eu trafod eto gan y Pwyllgor yn yr hydref. Byddaf yn parhau i drafod gyda phartïon sydd â buddiant y ffyrdd gorau o roi'r hawl mynediad ar waith yng Nghymru.

**Rhoi Rheoliadau ar Adeiladu Ffermydd Gwynt yng Nghymru ar Waith**

**Nick Bourne:** A all Sue Essex sôn am gynigion sydd ganddi i roi rheoliadau ar waith, mewn perthynas ag adeiladu ffermydd gwynt yng Nghymru? (WAQ6519)

**Sue Essex:** Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru yn bleidiol i ddatblygu ynni adnewyddadwy, ond dim ond lle mae'n dderbyniol yn amgylcheddol. Cyhoeddir canllawiau cynllunio yng Nghanllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio, Adolygiad Cyntaf (Ebrill 1999) ac yn Nodyn Cyngor Technegol 8 'Ynni Adnewyddadwy' (Tachwedd 1996) sydd yn mynd law yn llaw ag ef. Mae adolygiad ar y gweill o'r polisi cynllunio, ac fe gyhoeddir Polisi Cynllunio drafft Cymru a lunnir yn sgîl hynny tua diwedd y flwyddyn at ddibenion ymgynghori. Mae strategaeth ynni ddrafft i Gymru yn cael ei datblygu hefyd, a bydd y goblygiadau o ran polisïau cynllunio yn cael eu hystyried ochr yn ochr â hynny.

**Mesurau Diogelwch Ffordd Newydd ar gyfer Brycheiniog a Sir Faesyfed**

**Nick Bourne:** A all Sue Essex sôn am unrhyw fesurau diogelwch ffordd newydd sy'n cael eu cynnig ar gyfer Brycheiniog a Sir Faesyfed? (WAQ6520)

**Sue Essex:** Ar y rhwydwaith cefnffyrdd, mae cynllun diogelwch ffyrdd yng Nghrucywel wedi ei gymeradwyo eleni. Yn ogystal, mae rhyw 25 o gynlluniau bach yn cael eu cynnig o fewn Brycheiniog a Maesyfed ar hyn o bryd, a bydd i bob un ohonynt ryw oblygiadau o ran diogelwch y ffordd. Rhaid bod arian ar gael a bod y tir wedi'i brynu cyn y gellir bwrw ymlaen â'r cynlluniau.

Yn ddiweddar, cyhoeddais ddyraniad ychwanegol o £245,000 i Gyngor Sir Powys ar gyfer y flwyddyn hon i'w dargedu'n benodol at brosiectau diogelwch y ffordd ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

**Mesurau Diogelwch Ffordd Newydd ar gyfer Ceredigion**

**Nick Bourne:** A all Sue Essex sôn am unrhyw fesurau diogelwch ffordd newydd sydd yn cael eu cynnig ar gyfer Ceredigion? (WAQ6521)

Ar y rhwydwaith cefnffyrdd mae pedwar cynllun diogelwch ffordd lleol wedi eu cymeradwyo yng Ngheredigion eleni. Mae'r cynlluniau i gyd ar y A487 yng Nghommins Coch, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Great Darkgate Street, Aberystwyth ac wrth y Gogerddan Arms, Tanygroes. Mae tri chynllun pellach o dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Mae'r rhain ar yr A487 yn Llanfarian a Thre'r Ddol ac ar yr A44 wrth gyffordd Lovesgrove, Aberystwyth.

Yn ddiweddar, cyhoeddais ddyraniad ychwanegol o £119,000 i Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn hon i'w dargedu'n benodol at brosiectau diogelwch y ffordd ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

**Goblygiadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

**Nick Bourne:** A all Sue Essex sôn am unrhyw drafodaethau a fu rhyngddi ag aelodau'r Trysorlys, neu unrhyw un o'i chydweithwyr yn San Steffan, ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a'i oblygiadau ar yr amgylchedd, cynllunio a thrafnidiaeth yng Nghymru? (WAQ6522)

**Sue Essex:** Yr wyf mewn cyswllt rheolaidd â'm cydweithwyr yn San Steffan ynglŷn â materion sydd yn effeithio ar yr amgylchedd, cynllunio a thrafnidiaeth yng Nghymru.

**Ffordd Osgoi Talgarth**

**Nick Bourne:** A all Sue Essex sôn am unrhyw ddatblygiadau pellach o ran Ffordd Osgoi Talgarth? (WAQ6523)

**Sue Essex:** Yn sgîl rhoi'r gorau i gynigion y Swyddfa Gymreig a ystyriwyd yn yr ymchwiliad cyhoeddus yn Chwefror 1998, mae nifer o opsiynau yn cael eu hystyried gyda golwg ar ymgynghori ymhellach â'r cyhoedd yn ddiweddarach eleni ynglŷn â ffordd liniaru ar gyfer Talgarth.

Cefais gyfarfod buddiol ar 13 Gorffennaf gyda chynrychiolwyr o Gyngor Tref Talgarth ynglŷn â phroblemau traffig y dref, a bydd eu barn hwy yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu'r opsiynau.

**Mesurau Ffyrdd Newydd ar gyfer Sir Benfro**

**Nick Bourne:** A all Sue Essex sôn am unrhyw fesurau diogelwch ffordd newydd sydd yn cael eu cynnig ar gyfer Sir Benfro? (WAQ6524)

**Sue Essex:** Ar y rhwydwaith cefnffyrdd, mae dau gynllun diogelwch lleol wedi eu cymeradwyo yn Sir Benfro eleni. Mae'r ddau gynllun ar yr A40, yn Redstone Cross a Threletert. Mae pum cynllun arall yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae'r rhain ar yr A4076 yn Castle Terrace, Aberdaugleddau, The Vine, North Johnston a Dredgman Hill, Hwlffordd, ar yr A40 yn Canaston Bridge ac ar yr A477 yn Ferry Lane Junction, Doc Penfro.

Yn ddiweddar, cyhoeddais ddyfarniad ychwanegol o £162,000 i Gyngor Sir Powys ar gyfer y flwyddyn hon i'w dargedu'n benodol at brosiectau diogelwch y ffordd ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

**Newid Enwau Tafarndai**

**Nick Bourne:** A wnaiff Sue Essex ystyried cynigion i'w gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio er mwyn newid enwau tafarndai? (WAQ6541)

**Sue Essex:** Mae'r enwau a ddewisir i dafarndai, a'r ymateb iddynt, yn faterion goddrychol ac ni thybiaf y byddai'n briodol ystyried gwneud y dewis hwnnw'n ddarostyngedig i reolaeth gynllunio.